Cyllid & Tollau EF

# Hawliad i drosglwyddo lwfans rhyddhad o 100% sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer eiddo amaethyddol neu eiddo busnes

Atodlen IHT437

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon i roi gwybod i ni am y canlynol:

- ynglŷn â'r person a fu farw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026
- ynglŷn â phriod neu bartner sifil a fu farw cyn yr ymadawedig
- os ydych am drosglwyddo unrhyw lwfans rhyddhad o 100% sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer eiddo amaethyddol neu eiddo busnes i ystâd yr ymadawedig

## Yr hyn y bydd ei angen arnoch

Manylion eich priod neu bartner sifil.
Os bu farw'r priod neu bartner sifil ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026, bydd hefyd angen y canlynol arnoch:

- gwybodaeth gan yr ysgutor neu weinyddwr eu hystâd – mae angen sicrhau bod y ffigurau a'r datganiadau yr ydych yn eu darparu yn gywir
- os nad oes cofnodion, ceisiwch gael yr wybodaeth gan eraill a allai wybod, megis y cyfreithiwr, yr ysgutorion, gweinyddwyr neu aelodau'r teulu

Anfonwch lungopïau o'r dogfennau canlynol atom:

- y grant cynrychiolaeth (neu 'Confirmation' yn yr Alban) ar gyfer ystâd y priod neu'r partner sifil. Os na roddwyd grant, anfonwch gopi o'r dystysgrif marwolaeth
- yr ewyllys, os oedd un, ynghyd ag unrhyw godisiliau ('codicils')
- unrhyw weithred amrywio neu ddogfen debyg a newidiodd pwy etifeddodd yr ystâd

Enw'r ymadawedig (y person sydd bellach wedi marw)

Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB

Cyfeirnod Treth Etifeddiant (os yw'n hysbys)

## Dyddiad cau

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen hon atom cyn pen 4 mlynedd o ddiwedd y mis pan fu farw'r ail briod, neu cyn pen 6 mis cyntaf y cynrychiolwyr yn eu rôl.

## Help

I gael rhagor o wybodaeth neu help, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 - os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

Os bydd angen copi arnoch o unrhyw un o'n ffurflenni neu'n taflenni, gallwch eu lawrlwytho o www.gov.uk/government/collections/inheritance-tax-detailedinformation neu ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF i'w harchebu.

## Adran A Manylion y priod neu'r partner sifil

1 **Teitl**
Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

Cyfenw neu enw teuluol

Enwau cyntaf

2 **Dyddiad y briodas neu bartneriaeth sifil** DD MM BBBB

3 **Lleoliad priodi neu ffurfio'r bartneriaeth sifil.**
Enw'r adeilad, yr eglwys neu'r swyddfa gofrestru a'r ardal

4 **Dyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil** DD MM BBBB

5 **Cyfeirnod Treth Etifeddiant ar gyfer ystâd y priod neu'r partner sifil**

6 **A fu farw'r priod neu'r partner sifil cyn 6 Ebrill 2026?**
Rhowch 'X' mewn un blwch

Na

Iawn Mae 100% o'r lwfans rhyddhad yn gallu cael ei drosglwyddo. Nid oes angen i chi lenwi gweddill y ffurflen hon

7 **Ar adeg y farwolaeth gyntaf, a gafodd yr asedion i gyd eu trosglwyddo i'r priod neu'r partner sifil a oedd yn goroesi, ac ni wnaethant drosglwyddiadau trethadwy o'r eiddo a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar 100% cyn pen 7 mlynedd o'r farwolaeth?** Rhowch 'X' mewn un blwch

Na Ewch i adran B

Iawn Mae 100% o'r lwfans rhyddhad yn gallu cael ei drosglwyddo. Nid oes angen i chi lenwi gweddill y ffurflen hon

## Adran B Manylion y priod neu'r partner sifil parhad

Rhowch fanylion y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf. Dylech gynnwys gwerth unrhyw eiddo (gwerth yr ased ar ôl didynnu dyledion, megis morgais) a oedd yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes.

**Peidiwch** â chynnwys eiddo a drosglwyddwyd i'r ymadawedig, i elusen, neu i unrhyw sefydliad arall sydd wedi'i eithrio.

**Dylech** gynnwys eiddo na chafodd ei drethu am ei fod o fewn band cyfradd sero y priod neu'r partner sifil neu'r band cyfradd sero preswyl - gan gynnwys unrhyw symiau trosglwyddadwy sydd heb eu defnyddio.

**8** **Beth oedd gwerth unrhyw drosglwyddiadau trethadwy neu roddion o asedion a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes, a wnaed ar neu ar ôl 30 Hydref 2024, a chyn pen 7 mlynedd i farwolaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf?**

| Dyddiad y rhodd neu drosglwyddiadau trethadwy DD MM BBBB | Disgrifiad o'r asedion a roddwyd am ddim | Gwerth £ |
|---|---|---|
| | | |

**9** **Beth oedd gwerth yr eiddo a gafodd ei drosglwyddo o dan ewyllys neu reolau diewyllysedd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes?**

| Asedion | £ |
|---|---|
| | |

**10** **Beth oedd gwerth cyfran yr ymadawedig o asedion mewn perchnogaeth ar y cyd, a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes?**

| Asedion | £ |
|---|---|
| | |

**11** **Beth oedd gwerth unrhyw asedion yr ymddiriedolaeth yr oedd gan y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf hawl i elwa ohonynt, ac a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes?**

| Asedion | £ |
|---|---|
| | |

**12** **Beth oedd gwerth y rhoddion amodol a wnaed gan y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, a gwerth yr asedion a fyddai wedi bod yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes?**

| Asedion | £ |
|---|---|
| | |

## Adran C Cyfrifiad o'r lwfans rhyddhad o 100%

| Cam | Disgrifiad | Cyfrifiad | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwerth yr eiddo a oedd yn gymwys ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar farwolaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf | £ | Mae hyn yn cynnwys yr holl werthoedd ym mlwch 8 a 12 wedi'u hadio at ei gilydd |
| 2 | Y trothwy ar gyfer Rhyddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes ar y pryd | £ | Yr uchafswm yw £2,500,000 ar gyfer 100% o Ryddhad Amaethyddol neu Ryddhad Busnes |
| 3 | Lwfans rhyddhad o 100% sydd heb ei ddefnyddio, sydd ar gael i'w drosglwyddo (blwch 2 llai blwch 1) | £ | Dyma'r gyfran o lwfans yr ymadawedig na gafodd ei ddefnyddio.<br>Ni all y swm fod yn llai na £0 |
| 4 | Canran o'r rhyddhad o 100% sydd heb ei ddefnyddio<br>((blwch 3 ÷ blwch 2) x 100) | Wedi'i gyfrifo % | Bydd y ganran hon yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r lwfans ychwanegol a fydd ar gael i'r ymadawedig. Pan fo'r lwfans llawn o £2,500,000 ar gael i'r priod neu'r partner sifil, ni ddylid cwblhau blychau 4 a 5 |
| 5 | Y swm trosglwyddadwy o'r rhyddhad sydd heb ei ddefnyddio (bocs 4 x £2,500,000) | £ | Dyma'r swm y gellir ei ychwanegu at lwfans rhyddhad 100% o £2,500,000 yr ail briod i farw |

### Nodiadau

1 Gall priod neu bartner sifil sy'n goroesi hawlio'r rhan o'r lwfans rhyddhad 100% sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer eiddo amaethyddol cymwys neu fusnes cymwys gan briod neu bartner sifil a fu farw'n gynharach - hyd yn oed os yw'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi wedi ailbriodi.

2 Nid yw hawliad i drosglwyddo'r lwfans rhyddhad 100% sydd heb ei ddefnyddio yn digwydd yn awtomatig, ac mae'n rhaid gwneud hynny gan ddefnyddio ffurflen IHT400 a'r ffurflen hon, pan fydd yr ail briod neu'r partner sifil yn marw. Y terfyn amser ar gyfer yr hawliad hwn yw cyn pen 4 mlynedd o ddiwedd y mis y bu farw'r priod neu'r partner sifil, neu cyn pen 6 mis i'r amser y dechreuodd y cynrychiolwyr personol ar eu rôl.

Enghraifft os bu'r ail briod neu bartner sifil farw ar 15 Mawrth 2027:

- rheol 4 mlynedd: dylid gwneud yr hawliad erbyn 31 Mawrth 2031
- rheol 6 mis: os mai dim ond ar 10 Mai 2031 y dechreuodd y cynrychiolwyr personol weithredu, dylid gwneud yr hawliad erbyn 9 Tachwedd 2031

3 **Sut i gyfrifo'r rhyddhad 100% sydd heb ei ddefnyddio**
Os defnyddiodd y priod cyntaf i farw £800,000 o'i lwfans rhyddhad 100%, y gyfran sydd heb ei ddefnyddio yw:

£2,500,000 llai £800,000 = £1,700,000

**Trosi'n ganran**
Mae'n rhaid i'r lwfans sy'n cael ei drosglwyddo fod yn ganran o'r lwfans rhyddhad 100% sy'n gymwys ar adeg marwolaeth yr ail briod (sef £2,500,000 tan fydd y broses o fynegeio yn digwydd yn 2031):

Canran = (y gyfran sydd heb ei ddefnyddio (£1,700,000) ÷ £2,500,000) × 100 = 68%

**Cymhwyso'r ganran sydd heb ei ddefnyddio i'r lwfans rhyddhad 100% sy'n gymwys ar adeg marwolaeth yr ail briod**
Lwfans ychwanegol = 68% x £2,500,000 = £1,700,000

**Cyfanswm y lwfans ar gael**
Lwfans yr ail briod i farw (£2,500,000) ynghyd â'r lwfans a drosglwyddwyd (£1,700,000) = Cyfanswm lwfans rhyddhad 100% o £4,200,000